

Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Megan Evans (Llansannan) yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Eluned, a hefyd Rhiannon Roberts (Saron) ym marwolaeth ei brawd, Richard. Cyflwynwn hwy a'u teuluoedd i ofal Duw a gweddiwn y byddant yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Brawychus hefyd oedd clywed am y brofedigaeth annisgwyl sydd wedi dod i ran teuluoedd eraill o'n plith. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â hwy oll, a gweddiwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Parhawn i gofio am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno, ac at bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd. Yr ydym yn eu hamgylchynu yn ein gweddïau, gan hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan.

Cyweithiau'r Ysgolion Sul

Gair i'ch atgoffa y derbynir cyweithiau'r Ysgolion Sul ar y thema 'Dathliadau'r Beibl a'r Eglwys' nos Lun, Ebrill 7fed, yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos, rhwng 7 ac 8 o'r gloch.

I ddod

- **CWRDD CHWARTER ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** nos Iau, Mawrth 20fed am 7.00 yng Nghapel Pendref, Rhuthun. Yn dilyn y materion busnes, fe geir arweiniad gan Mrs Julie Edwards, Swyddog Diogelwch y Panel Diogelwch Cydenwadol i'r Llawlyfr newydd "Diogelu Grwpiau Bregus" sy'n cynnig canllawiau ymarferol i bolisi ac ymarfer da yr eglwysi wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion bregus.
- **CYFARFOD CYMDEITHASOL CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 8fed am 7.30. Y wraig wadd fydd y Parch. Nan Wyn Powell-Davies. Croeso cynnes i bawb.
- **NEW WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed – 12fed ac Ebrill 12fed-17eg. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 474 0009/www.newwordalive.org
- **LLANW** – Gŵyl Gristnogol i'r teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Nolgellau dydd Mercher, Ebrill 30ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9^{fed} Mawrth 2014

Darllenid y Dydd

Effesiaid 1: 15-23

(BCND tud. 211 / BCN: tud.193)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw, a chroeso arbennig i Meirion yn ôl i'w hen gynefin! Gweddiwn am fendith Duw ar ei waith fel Ysgrifennydd Cyffredinol, ac eneniad yr Ysbryd arno wrth iddo bregethu yn ein plith.

Mae'r wythnos hon wedi bod yn un wahanol yn y byd pêl droed gan fod gemau rhyngwladol cyfeillgar wedi cael eu cynnal. I dîm Cymru, prin oedd arwyddocâd eu buddugoliaeth yn erbyn Gwlad yr Iâ (er ei bod hi'n braf pan mae Cymru'n llwyddo i guro unrhyw dîm!), ond yn ôl y papurau newydd roedd gemau Lloegr, Ffrainc a'r Eidal yn llawer pwysicach. Roedd hyn oherwydd eu bod hwy'n paratoi ar gyfer Cwpan y Byd a gynhelir yn ystod yr haf ym Mrasil. Wrth iddynt baratoi daeth y newyddion fod tîm pêl droed Lloegr wedi penodi'r seiciatrydd chwaraeon Dr Steve Peters i'w cynorthwyo gydag agweddau meddyliol y gêm. Daeth Peters i enwogrwydd trwy weithio gyda nifer o feicwyr mwyaf llwyddiannus Prydain yn ystod y Gemau Olympaidd diwethaf. Nid yw'n arbenigwr ar chwaraeon, ond mae'n gweithio gyda'r chwaraewyr i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial wrth eu helpu i ddelio gyda'u hemosiynau, eu hofnau a'u gofidiau.

Yn ein darllenid o'r llythyr at yr Effesiaid mae Paul yn gweddi am i'r Cristnogion yn Effesus dyfu yn eu ffydd yn Iesu Grist. Ei ddyhead yw ar i'r Ysbryd Glân eu harwain i ddeall a gweld y gobaith a ddaw trwy ymateb mewn ffydd i alwad Duw. Ar ben hyn mae'n cyfeirio at nerth a gallu anghymharol Duw – gallu sydd o blaid y rhai sy'n credu. Dangoswyd y grym hwn yn Iesu Grist yn ystod ei fywyd, marwolaeth a'i atgyfodiad ac mae'r grym a'r arglwyddiaeth hon yn parhau dros bopeth am byth! Dyna i chi weddi wych i ni weddi drosom ein hunain a thros Gristnogion eraill.

Yn wahanol i'r Dr Steve Peters, nid ceisio darbwylllo Cristnogion o'r hyn y gallant ei wneud a wna Paul. Yn hytrach mae am iddynt sylweddoli cymaint yw gallu Duw, a bod y gallu hwnnw ar gael i'r rhai sy'n dod i berthynas ag Iesu Grist. Mae hynny'r un mor wir i ninnau heddiw – diolch i'r Arglwydd! Yn ein hoedfaon a thrwy'r wythnos sydd i ddod, boed i weddi Paul fod yn gysur, yn anogaeth ac yn her i ni ym mha bynnag sefyllfa y byddwn yn ei hwynebu.

Darllenid Wythnos Nesaf

Salm 15 (BCND tud.496 / BCN: tud.453)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y **Parch. Meirion Morris** yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Christian Viewpoint** – “Taflu'r garreg gyntaf” gyda Joey G. Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- Mercher • **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant yn Llanefydd** am 3.15.
• **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** yng Nghapel Cefn Berain am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am “Ffynhonnau”.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sioned Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 2.00, ac yn dilyn yr oedfa, bydd te i bawb wedi ei drefnu gan blant yr Ysgol Sul i godi arian i'r plentyn o Senagal y mae'r eglwys yn ei noddi. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 10.45.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.